



Themâu trawsbynciol



Cyflwyno gweithgareddau sy'n cefnogi'r themâu trawsbynciol. Mae'r prosiectau canlynol a ariennir gan ERDF wedi dangos eu hymrwymiad ac wedi cyflawni rhai canlyniadau trawiadol



Dylunio Arloesol




Roedd prosiect **CUBRIC II**, dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, yn cynnwys ehangu ac adleoli Canolfan Delweddu Ymchwil yr Ymennydd Prifysgol Caerdydd (CUBRIC) i gyfleuster pwrpasol. Mae'r prosiect hwn, a ariennir drwy raglen ERDF Dwyrain Cymru, wedi integreiddio agweddau o'r themâu trawsbynciol yn systematig i'w ddyluniad.

Llwyddodd yr adeilad i ennill statws BREEAM 'rhagorol', gyda'r dyluniad yn cynnwys amrywiaeth o fesurau effeithlonrwydd adnoddau a, lle bo modd, roedd cadwyni cyflenwi lleol yn cael eu hannog a'u defnyddio. Roedd yr adeilad hefyd yn cynnwys tri tho gwyrdd a theras awyr agored i'w defnyddio gan staff CUBRIC. Roedd y planhigion yn gymysgedd o fywlysiau a blodau gwyllt i gadw a hyrwyddo bioamrywiaeth ar y safle cyn belled ag y bo modd.

Yn 2016 dyfarnwyd Gwobr Efydd Cynaliadwyedd Amgylcheddol i'r adeilad, ac yn 2017 llwyddodd CUBRIC i guro cystadleuaeth oddi wrth gyfleusterau ar y rhestr fer o'r UDA, Lloegr, yr Alban ac Iwerddon, yng Nghategori Adeiladu Ymchwil Gwyddor Bywyd yng Ngwobrau S-Lab 2017, sy'n cydnabod rhagoriaeth mewn adeiladau, offer, cyfleusterau a rheolaeth wyddonol.

Hefyd yn 2017, llwyddodd CUBRIC i ennill dwy wobr arall drwy ennill Gwobr Arbennig Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru y Cadeirydd a Phrosiect y Flwyddyn a'r teitl Dylunio drwy Arloesi yng Ngwobrau RICS 2017, Cymru. Yn 2018 dyfarnwyd gwobr Arian i'r adeilad am y Cynllun Effaith Gwyrdd.

Dylunio Arloesol



Mae'r **Sefydliad Ymchwil ar gyfer Deunyddiau, Prosesu a Thechnolegau Rhifiadol Arloesol (IMPACT)** a **Ffowndri Gyfrifiadurol**, yn gyfleuster ymchwil cyfrifiadureg o safon ryngwladol, dan arweiniad prifysgol Abertawe ac wedi'i leoli ar safle a oedd yn arfer bod yn safle tir llwyd wrth yml SDdGA Crymlyn Burrows.

Mae'r ddau brosiect wedi croesawu egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y cam dylunio cyn cynllunio a'r cam adeiladu, gan ennill statws 'BREEAM Ardderchog'. Mae'r nodweddion dylunio'n cynnwys golau dydd da, awyru naturiol ac acwsteg, deunyddiau lleol lle bo hynny'n bosibl, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff adeiladu ar y safle neu drwy contractwr trwyddedig allanol.

Mae paneli ffotovoltaidd ar do adeilad y Ffowndri Gyfrifiadurol, yn cyfrannu at ynni glân ar gyfer yr adeilad ac mae cwareli gwydr wedi eu trin ar y ffasâd sy'n wynebu'r de ar adeilad IMPACT yn caniatáu gwresogi goddefol ac amddiffyniad rhag golau tanbaid, yn ogystal ag atal colli gwres yn ystod misoedd y gaeaf.

Er mwyn annog bioamrywiaeth ar y safle pwysig hwn, mae gwlyptir ar yr iard ganolog, ac mae'r dyluniad yn cynnwys tirlunio meddal gan ddefnyddio planhigion, llwyni a choed brodorol y profwyd sy'n tarddu o'r DU, ac mae hefyd yn cynnwys blychau nythu gwenoliaid ac ystlumod ynghyd â wal fyw 'wyrdd' ar ochr ogleddol adeilad IMPACT.

Enillodd AHR, penseiri IMPACT, wobwr Ystadau Addysg 2020 am ddylunio'r adeilad IMPACT. Mae'r wobwr, Arloesi wrth Roi Gwerth, yn cydnabod arloesi sydd wedi helpu i gyfrannu at werth wrth ddylunio mannau dysgu.

Dylunio Arloesol



Nod Campws **Arloesi a Menter Aberystwyth (AIEC)** sy'n cael ei arwain gan Gampws Arloesi a Menter Aberystwyth Cyf (Cyfrwng at Ddibenion Arbennig rhwng Prifysgol Aberystwyth a'r Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol) yw creu Campws Arloesi o'r radd flaenaf i fod yn gyrchfan i gwmnïau, buddsoddwyr ac entrepreneuriaid newydd a phresennol, wedi'i ddylunio i hybu a manteisio ar gyfleoedd economaidd newydd. Bydd yr AIEC yn cynnwys y cynlluniau canlynol: Canolfan Bwydydd y Dyfodol (adeilad newydd) Canolfan Bwyd, Maeth a Diogelwch Ynni (adeilad newydd) Biofanc Hadau a Chyfleuster Prosesu (adeilad newydd) Canolfan Bio-buro (adeilad newydd).

Mae gan ddatblygu cynaliadwy ran allweddol yn y gwaith o gyflawni'r prosiect hwn a hyrwyddo bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd. Sicrhawyd sgôr BREEAM Rhagorol; cafodd paneli solar ffotofoltaig eu gosod; lliniarwyd y coed a gollwyd fel rhan o'r gwaith clirio drwy blannu coed brodorol ychwanegol; codwyd ffensys ymlusgiaid i warchod rhywogaethau agored i niwed gan gynnwys madfallod (dangosir y ffens isod) yn ogystal ag ardaloedd o bentyrrau coed rhydd fel lloches i ymlusgiaid; plannwyd gwrychoedd a blodau gwyllt newydd er mwyn integreiddio cynefinoedd. Pwll/basn arafu; darparwyd blychau ystlumod ar ffasâd y Ganolfan Bio-buro hefyd. Llwyddodd dau gwmni ar hugain o Gymru i sicrhau gwaith i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau i'r prosiect hwn.

Cafodd amrywiaeth o weithgareddau cymunedol eu darparu gan gynnwys creu 10 o swyddi adeiladu i bobl leol ddi-waith, 3 newydd-ddyfodiad i'r diwydiant. Cafodd 1100 o wythnosau o hyfforddiant a chyflogaeth newydd eu cyflawni a darparodd y partneriaid cadwyn gyflenwi 682 wythnos o brentisiaethau. Cafodd Gofal Plant Gogerddan Cyf, sydd wedi'i leoli ar y campws a fferm y Brifysgol, eu cefnogi gyda rhai o'u hadeiladau presennol oedd angen gwaith arnynt ac mae tîm ArloesiAber wedi cymryd rhan mewn gwaith glanhau traethau lleol.

Gwella Profiad Ymwelwyr



Mae gan y prosiect **Cyrchfannau Denu Twristiaeth (TAD)**, sy'n cael ei ddarparu drwy'r mudiad cyfryngu Croeso Cymru gyfres o 13 prosiect unigol sy'n ceisio gwella cyrchfannau i ymwelwyr ledled Cymru. Un o'r prosiectau unigol yw'r Ganolfan Ymwelwyr Cyflymder ar y Tywod ym Mhentywyn. Mae'r prosiect, i greu atyniad i ymwelwyr ar lan y môr, yn cynnwys yr elfennau datblygu cynaliadwy canlynol:

- Defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy
- Defnyddio deunydd wedi'i ailgylchu; ac adennill dŵr glaw
- Mae'r adeilad wedi'i gynllunio i fodloni safonau Passiv Haus a fydd yn golygu gostyngiad o tua 90% yng nghostau ynni ei rhedeg o'i gymharu ag adeilad wedi'i adeiladu mewn modd safonol.
- Bydd y dyluniadau'n cynnwys defnyddio goleuadau dydd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac awyru naturiol.
- Mae tirluniad y safle'n cynnwys glaswellt byr arfordirol a chlawdd o laswellt, coetir twyni arfordirol, prysgwydd twyni arfordirol, glaswelltir twyni arfordirol, parth plannu SUDS, coed dynodi llwybr, planhigion llysieuol arfordirol a phlanhigion micro-hinsawdd/llochesu.

Gwella Profiad Ymwelwyr



Mae **Llys y Fran** yn Sir Benfro yn brosiect arall a ddarperir drwy'r fframwaith Cyrchfannau Denu Twristiaeth. Nod y gwaith hwn yw adfywio Parc Gwledig a physgodfa brithyll Llys y Frân, gan ehangu ac adnewyddu'r ganolfan ymwelwyr i gynnwys man arddangos ac addysgu dan do, a bwyty deniadol o ansawdd da a fydd yn dathlu cynnyrch lleol. Bydd canolfan gweithgareddau awyr agored newydd yn cael ei hadeiladu a fydd yn darparu sylfaen ar gyfer chwaraeon dŵr ar y gronfa ddŵr ac yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer beicio o amgylch y gronfa ddŵr.

Rhoddir pwyslais ar gynnwys teuluoedd; bydd chwaraeon i bob ethos yn cael ei annog a'i gefnogi gan dîm o staff arbenigol a llawn cymhelliant. Bydd gweithgareddau ar y tir yn cynnwys gwella a pharhau â'r ffocws ar feicio, cerdded a darparu lleoliad hamdden ac addysgol sy'n ddiogel drwy gydol y flwyddyn ar gyfer ymwelwyr gwyliau i Sir Benfro, ceisiwr gweithgareddau awyr agored ac ysgolion.

Mae'r prosiect wedi ymrwymo i arbed ynni ac effeithlonrwydd gyda phŵer trydan dŵr a gynhyrchir gan argae'r gronfa ddŵr yn cyflenwi'r ganolfan ymwelwyr a chyfleusterau eraill. Mae amrywiaeth o ffynonellau ynni-effeithlon yn cael eu cynnwys yn nyluniad yr adeilad ynghyd â defnyddio cadwyni cyflenwi lleol lle bynnag y bo modd, gan gynnwys ffynonellau cynaliadwy o ddeunyddiau e.e. ffynonellau pren gan gyflenwyr lleol coetiroedd achrededig FSC.

Bydd y prosiect yn gwneud defnydd llawn o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu neu eu hailddefnyddio, bydd gweundir newydd a chlystyrau coed yn cael eu cyflwyno ar ardaloedd amwynder er mwyn cynyddu bioamrywiaeth a bydd y prosiect a phrofiad wedi'i arwain gan chwarae ar thema ddŵr yn annog plant i ddysgu am ddŵr ac arferion rheoli dŵr cynaliadwy.

Gwella Profiad Ymwelwyr



Nod prosiect Cyrchfan Atyniad Twristiaeth Glannau Caernarfon yw trawsnewid Caernarfon i fod yn gyrchfan dwristiaeth eiconig o statws cenedlaethol a rhyngwladol, gan adeiladu ar asedau diwylliannol a hanesyddol eithriadol yr ardal.

Mae prosiect y Glannau'n cynnwys gwella Canolfan Fenter Greadigol Galeri, Datblygu Terfynfa Rheilffordd Ucheldir Cymru, gyda chyfleusterau gorsaf/terfynfa newydd ar gyfer Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri yn ardal y Cei Llechi a buddsoddi mewn datblygu seilwaith i wella mynediad a chysylltiadau rhwng y prif atyniadau.

Mae'r prosiect wedi ymrwymo i drafnidiaeth gynaliadwy, hyrwyddo cadwyni cyflenwi lleol effeithiol, gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o ynni ac adnoddau megis defnyddio ynni solar ffotofoltaidd, datblygu cynlluniau rheoli gwastraff safle a sicrhau nad oes datblygiad amhriodol mewn ardaloedd gwarchodedig.



Cymorth i Fusnesau

Mae Busnes Cymru, dan arweiniad Adran Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru, yn wasanaeth am ddim sy'n darparu cymorth a chynghor diduedd ac annibynnol i bobl sy'n dechrau, yn rhedeg ac yn tyfu busnesau yng Nghymru.

Gyda chanolfannau rhanbarthol ledled Cymru, mae cymysgedd o gymorth wyneb yn wyneb ac ar-lein ar gael, yn ogystal â gweithdai hyfforddi a chynghor unigol. Mae lefel y gefnogaeth yn dibynnu ar botensial twf y buddiolwr, yn amrywio o Lefel 1 (microfusnesau ac unigolion hunangyflogedig) i Lefel 4 (sefydliadau mwy gyda photensial uchel am dwf).

Mae'r lefelau cymorth yn berthnasol i fusnesau presennol a'r rhai nad ydynt wedi dechrau eto. Mae Rhaglen Cyflymu Twf ar gael i fusnesau ac entrepreneuriaid sydd â'r potensial am dwf uchel, yn ogystal â rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid sy'n darparu sesiynau gwybodaeth a chymorth dwys i unigolion rhwng 14 a 25 oed ar fanteision dechrau busnes a chymorth ar gyfer gwneud hynny.

Mae estyn allan i gymunedau amrywiol ledled Cymru drwy'r canolbwyntiau rhanbarthol yn agwedd allweddol ar waith rheolaidd cynghorwyr Busnes Cymru. Fodd bynnag, gyda'r bwriad penodol o helpu'r rheini y mae'r coronafeirws (COVID-19) wedi effeithio fwyaf arnynt yn economaidd, sefydlwyd Cronfa Rhwystrau Busnes Cymru i alluogi unigolion di-waith neu economaidd anweithgar i ddechrau busnes yng Nghymru, gan ddarparu grantiau dewisol ochr yn ochr â chynghor i gynorthwyo busnes, i helpu hyd at 600 o unigolion i ddod yn hunangyflogedig neu i ddechrau busnes rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021.

Mae gan Busnes Cymru gysylltiadau sefydledig ac effeithiol â rhaglenni cefnogi busnes eraill, fel Banc Datblygu Cymru, Busnes Cymdeithasol Cymru a Chyswllt Ffermio. Yn ogystal, mae'r prosiect Arloesedd SMART, sydd hefyd yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru a'i ariannu drwy ERDF Blaenoriaeth 1, wedi sefydlu pecyn cymorth diagnostig ar-lein fel rhan o'u hymrwymiad i'r themâu trawsbynciol, sy'n caniatáu i fusnesau archwilio eu harferion cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy. Mae cynghorwyr Busnes Cymru wedyn yn darparu'r cymorth sydd ei angen arnynt i ddatblygu neu wella.



Cymorth i Fusnesau



Roedd **Menter Cefnogi Busnesau Pwylaidd** yn targedu cefnogaeth ar gyfer y gymuned o weithwyr mudol o Wlad Pwyl. Mae fforwm busnes, a sefydlwyd yng Nghanolbwynt Wrecsam Busnes Cymru ac yn cael ei gefnogi gan blatfform Facebook, yn gyfle i rwydweithio ynghyd â gweld ffrwd fideo fyw gan arbenigwr yn y diwydiant a chyfle i fusnesau Pwylaidd wneud cyflwyniadau i'r rhwydwaith.

Gweithio mewn Partneriaeth - dathlodd Remploy Cymru “Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anableddau”.

Aeth y cynghorydd Busnes Cymru, Yusuf Behardien (yn y llun yng nghrys polo coch Busnes Cymru) draw i gefnogi'r digwyddiad ym Mhontypridd ac egluro sut gall y gwasanaeth gefnogi unigolion i ddechrau a datblygu eu busnes.



Cymorth i Fusnesau



Defnyddio Cod Eco i annog arferion datblygu cynaliadwy da

Galluogi gweithio hyblyg a gwell ymwybyddiaeth o gydraddoldeb yn y gweithle

Creu dros 400 o swyddi yn rhai o'r cymunedau â'r heriau mwyaf yng Nghymru

Cefnogi staff presennol drwy broses o ehangu a newid

Cefnogi busnesau i ddatblygu eu harferion cynaliadwyedd, datblygu, cydraddoldeb ac AD

Helpu sefydliadau i arbed arian drwy fod yn wyrdd a lleihau gwastraff

Busnes Cymdeithasol yng Nghymru

Darparu cymorth busnes ledled Cymru i fentrau cymdeithasol a busnesau dan berchnogaeth gweithwyr gyda photensial i dyfu

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Mae Busnes Cymdeithasol Cymru, dan arweiniad Canolfan Cydweithredol Cymru, yn darparu cymorth busnes i fentrau cymdeithasol a busnesau sy'n eiddo i weithwyr sydd â'r potensial i dyfu.

Mae'r gefnogaeth yn cynnwys rhoi cyngor ar ddatblygu polisiâu ac arferion cydraddoldeb, amrywiaeth a datblygu cynaliadwy, ynghyd â helpu mudiadau bach i arbed arian drwy fod yn wyrdd a lleihau gwastraff.

Mae'r prosiect yn cyflawni dangosyddion y rhaglen themâu trawsbynciol 'Mentrau sy'n datblygu neu'n gwella eu strategaethau cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy a'u systemau monitro'.


Ymchwil ac Arloesi

Lleihau Allyriadau Carbon Diwydiannol (RICE) dan arweiniad Prifysgol Abertawe mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru. Mae RICE yn cyfuno arbenigedd sefydledig, mewn trosi algâu a chynhyrchu hydrogen, gydag arbenigedd newydd ym maes gwres-i-drydan, cipio CO2 a gwastraff cemegol.

Mae'r ffocws ar brosesau arloesol i leihau allyriadau CO2 Cymru a lleihau'r defnydd o ynni a deunydd crai gan Ddiwydiant Trwm yng Nghymru.

Mae'r tîm RICE wedi bod yn awyddus i ymgorffori canlyniadau cydraddoldeb mewn prosiect sy'n ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd. Yn benodol, cefnogi mwy o ferched a menywod ifanc i gymryd rhan mewn STEM a chydabod pwysigrwydd tîm prosiect amrywiol o ran arloesi a syniadau.

Cymerodd yr ymchwilydd RICE Dr Jennifer Rudd ran yn Gwyddoniaeth Wych Abertawe 2020 yn Amgueddfa'r Glannau mewn partneriaeth ag Uriel Science, fel rhan o Wythnos Wyddoniaeth Prydain a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Roedd y digwyddiad yn cynnwys sgysiau ar amrywiaeth o bynciau. Roedd y sgwrs 'From Trash to Cash: Gweithdy rhyngweithiol' yn seiliedig ar leihau gwastraff plastig drwy drawsnewid hen wrthrychau yn rhywbeth newydd yn fyw ar y llwyfan.




Ymchwil ac Arloesi

Mae'r **Ganolfan Deallusrwydd Artiffisial, Roboteg a Systemau Peiriant-Dynol (IROHMS)**, yn ganolfan dechnoleg amlddisgyblaethol ym Mhrifysgol Caerdydd, sy'n cyfuno arbenigedd tair o Ysgolion y brifysgol: Yr Ysgol Beirianeg, yr Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg, a'r Ysgol Seicoleg. Nod y prosiect yw targedu cyfleoedd newydd sy'n dod i'r amlwg ym maes Deallusrwydd Artiffisial (AI) a Roboteg a Systemau Peiriant-Dynol (HMS) a chreu mwy o gapasiti/gallu ymchwil a gwell cyfleusterau, gydag offer a thechnolegau o'r radd flaenaf, meithrin cysylltiadau â chydweithredwyr a chyllidwyr ymchwil yn y DU ac yn rhyngwladol.

Mae tîm prosiect IROHMS yn cyflawni'r Themâu Trawsbynciol drwy nifer o ddangosyddion sy'n gysylltiedig â pholisïau ehangach Prifysgol Caerdydd e.e. gweithgarwch cyflog cyfartal a chefnogi siaradwyr Cymraeg. Mae gan Brifysgol Caerdydd agenda gref i gefnogi menywod i gymryd rhan mewn STEM. Mae IROHMS yn mynd â'r ymrwymiad hwn yn ei flaen, ac mae dau o'r gweithgorau sy'n cefnogi'r prosiect yn cael eu cadeirio gan fenywod. Mae aelodau'r tîm hefyd yn awyddus i weithio mewn partneriaeth â chynlluniau eraill Prifysgol Caerdydd a phrosiectau ERDF fel Flexis, i gydlyn a darparu gweithgareddau, cefnogi'r Themâu Trawsbynciol e.e. ehangu mynediad, gweithgareddau cyfoethogi STEM mewn ysgolion, ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Agwedd ddiddorol ar y prosiect hwn o safbwynt Themâu Trawsbynciol yw'r swm mawr o dystiolaeth gyfredol sy'n cyfeirio at y ragfarn ar sail rhyw a rhywedd mewn technoleg fel AI. Mae IROHMS yn targedu cyfleoedd newydd sy'n dod i'r amlwg o fewn AI, roboteg a systemau peiriant-dynol, gyda phwyslais mawr ar ryngweithiad pobl â thechnoleg, yn rhoi cyfle i archwilio problemau ymchwil cymhleth o ran y rhyng-gysylltiad rhwng ymddygiad dynol a thechnoleg. Gallai'r gweithgaredd y mae IROHMS yn yn ymwneud ag ef, wella ein dealltwriaeth a'n cyfraniad at yr Agenda Themâu Trawsbynciol mewn ffordd ystyrlon.

Watch an online demo of the Smartsuit Pro in action



Ymchwil ac Arloesi

Mae'r Ganolfan Biodechnoleg Amgylcheddol (CEB) yn is-adran ymchwil a chyfleuster arloesol yn Ysgol Gwyddorau Naturiol Prifysgol Bangor. Mae'n dwyn ynghyd academyddion ac ymchwilwyr blaenllaw ym maes microbioleg, genomeg a chemeg ensymau, o fewn cyfleusterau ymchwil sydd newydd gael eu gwella. Mae prosiect y Ganolfan yn targedu cyfleoedd cyllido ymchwil newydd ac yn galluogi cydweithio rhwng y byd academiaidd a diwydiant, i ddatblygu atebion arloesol ar gyfer defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gyfrannu hefyd at ardal ddiwydiannol sy'n dod yn fwyfwy gwerthfawr yn economaidd.

Mae Ymgyrch y Ganolfan hefyd wedi cael cydnabyddiaeth a chyhoeddusrwydd ehangach, rhyngwladol, yn bennaf o ganlyniad i'w waith i gefnogi'r gwaith o fonitro'r coronafeirws mewn dŵr gwastraff yn ystod pandemig Covid-19.

Ym mis Mai 2020, rhoddwyd sylw newyddion rhyngwladol i ymchwil y Ganolfan i'r asesiad lefel genedlaethol, integredig o heintiau SARS-CoV2 mewn ardaloedd trefol gan ddefnyddio gwyliadwriaeth dŵr gwastraff, gan dynnu sylw at werth y Ganolfan, ei chymwysiadau posibl a sut y gellir defnyddio'r cyfleuster a'i adnoddau i fynd i'r afael yn gyflym â phroblemau iechyd sy'n dod i'r amlwg.

Gan fynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol, mae tîm cyflawni'r prosiect a Labordy Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor (adran sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd ym Mhrifysgol Bangor) wedi cydweithio i fanteisio i'r eithaf ar y potensial. Mae rhaglen waith wedi sicrhau bod egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u gwreiddio ym mhob agwedd ar y prosiect.

Fel prosiect yn y sector Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM), mae'r anghydbwysedd presennol rhwng y rhywiau yn y gweithlu STEM yn effeithio'n drwm ar y CEB, rhywbeth y mae'r prosiect yn ei fonitro yn ei dîm ei hun, ac ar hyn o bryd mae rhaniad 60:40 rhwng dynion a menywod ymysg nifer yr ymchwilwyr.

Mae'r prosiect yn cefnogi'r Gymraeg drwy'r wefan, hysbysebion swyddi a deunyddiau eraill, sesiynau ar-lein a hefyd cynhaliwyd Diwrnod Bioleg Cemegol Cymraeg lle cyflwynwyd sgwrsiau'r holl siaradwyr gwadd yn Gymraeg.

Mae'r prosiect wedi'i leoli mewn labordy / swyddfa sydd wedi'i adnewyddu a gwnaed cryn ymdrech i sicrhau bod ystod o fesurau effeithlonrwydd adnoddau yn sicrhau budd hirdymor. Yn fwyaf nodedig, mae'r Ganolfan yn gweithio gyda chyflenwr cyfrifol o ddefnyddiau traul bach ar gyfer labordai (pinnau pipedau, tiwbiau allgyrchu micro).

Mae'r cyflenwr hwn wedi ymrwymo i wella cynaliadwyedd ym maes gwyddoniaeth ac mae'n gweithio i leihau effaith y cwmni ar yr amgylchedd ar gyfer y cynnyrch sy'n cael ei gynhyrchu a'r gwaith o redeg y busnes o ddydd i ddydd.

Datrysiadau Ynni ar gyfer y Dyfodol



Mae Ardal Profi Offer Morol (META) yn galluogi profion amrywiol ar ddyfeisiau ynni morol. Mae dyheadau hirdymor datblygu cynaliadwy yn hollbwysig er mwyn sicrhau hirhoedledd a gwaddol yn sgil gweithrediad ynni morol arloesol o'r fath yng Nghymru ac mae'n braf gweld ymrwymiad META i hyn drwy gydol gweithgarwch y prosiect.

Mae Fforwm Arfordir Sir Benfro ac Ynni'r Môr Penfro wedi datblygu cynllun amgylcheddol a siarter datblygu cynaliadwy a byddant yn gweithio ochr yn ochr â'r rhain yn ystod y cam gweithredu.

Mae'r prosiect wedi cynnal nifer o Weithdai Ynni'r Môr STEM gydag ysgolion lleol. Cynhaliwyd sgysiau cymunedol ynghyd ag arddangosfa symudol a, gyda phartneriaid, cydlynwyd digwyddiad Ynni'r Môr STEM gyda Choleg Sir Benfro, lle bu dros 100 o ddisgyblion yn bresennol gyda sgysiau am yrfaoedd ym maes ynni'r môr yn ogystal â gweithdai rhyngweithiol.

Cynigiwyd lleoliad pedair wythnos i fyfyrwr graddedig lleol, ac ar ôl hynny llwyddodd i gael swydd ym maes polisi ynni.

Datrysiadau Ynni ar gyfer y Dyfodol




Mae **Storfa Solar Gymunedol Abertawe** dan arweiniad Gower Power Solar, yn cynnwys gosod cyfleuster storio newydd ar fferm solar 1MW (un megawat) mewn partneriaeth â chyflenwr ynni trwyddedig. Y nod yw galluogi rheolaeth glyfar o'r grid a chyfateb y galw am gyflenwi'r trydan yn lleol i gwmni cydweithredol o hyd at 300 o ddefnyddwyr lleol (preswyl a busnes) gan ddefnyddio mesuryddion clyfar.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i lwyddiant y prosiect hwn, gan sicrhau ymgysylltiad rhwng grwpiau cymunedol presennol a grwpiau newydd; gweithio gyda'r gymuned i feithrin setiau o sgiliau a mwy o hyder ymhlith aelodau'r gymuned a darparu cefnogaeth i'r rhai sydd ei hangen fwyaf i fabwysiadu mesurau arbed ynni yn eu cartrefi i liniaru tlodi tanwydd.

Gan weithio gyda'r gymuned i fagu setiau o sgiliau a chynyddu hyder aelodau'r gymuned i'w galluogi i ystyried cymryd rhan mewn cynllun ynni, mae'r prosiect hefyd yn ceisio codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion ynni sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd.

Datrysiadau Ynni ar gyfer y Dyfodol



Troswr Ynni'r Tonnau WaveSub (WEC) dan arweiniad Marine Power System Limited. Ei nod yw galluogi Systemau Ynni'r Môr (MPS) i wneud gwaith saernïo a chydodod ar raddfa 1:4 sy'n gwbl weithredol, sef dyfais brototeip Trosi Ynni'r Tonnau Wave Sub (WEC) yng Nghymru, wedi'i ddilyn gan raglen brofi lawn ar gyfer treialon ar y môr i'w chynnal yn FaBTest, Lloegr.

I gefnogi amcan Llywodraeth Cymru a WEFO i fusnesau ddarparu swyddi drwy fuddsoddi mewn ynni'r môr yng Nghymru, a'r angen i fagu cadwyn gyflenwi ynni gystadleuol yng Nghymru, mae MPS wedi ymrwymo i sicrhau bod y prosiect yn defnyddio o leiaf 50% o gynnwys cadwyn gyflenwi Cymru.

Gall WaveSub, sy'n unigryw o ran ei allu i weithredu ar wahanol ddyfnder yn y golofn ddŵr, er mwyn sicrhau'r ynni gorau posibl, gynhyrchu pŵer ym mhopeth ond yr amodau mwyaf eithafol ar y môr, gan ddarparu ffactor capasiti uwch dros ei gystadleuwyr. Mae'r fantais hon yn mynd i'r afael yn benodol â her diogelu cyflenwadau Cymru, lle mae'r amrywiad tymhorol yn adnodd ynni'r tonnau yn cyd-fynd yn dda â galw Cymru (a'r DU) am ynni tymhorol.

Mae'r arloesi hwn yn caniatáu i WaveSub gasglu'r sbectrwm ehangach rhwng hinsawdd tonnau ynni uchel ac ynni isel a welir yn ystod y gaeaf a'r haf, er mwyn darparu pŵer mwy parhaus i'r grid, mewn amodau môr sy'n amrywio'n gyson. Fel prosiect sy'n darparu gweithgarwch yn uniongyrchol gan gefnogi'r agenda werdd, mae tîm WaveSub wedi bod yn awyddus i sicrhau bod eu harferion eu hunain yn cyflawni amcanion y themâu trawsbynciol.

Datrysiadau Ynni ar gyfer y Dyfodol

MINESTO: Deep Green

Dyfnider Caergybi, Ynys Môn
Gwneud Cymru'n ganolfan ar gyfer cynhyrchu ynni morol
Tynnu ynni trydanol o lanw a cherrynt cyflymder isel

Defnyddio adnoddau'n effeithiol,
ailgylchu a lleihau gwastraff

Cefnogi gweithio'n hyblyg a phrif-
ffrydio rhywedd

Sefydlu pencadlys
Minesoto yn y DU a
chanolfan ymwelwyr

Gweithio gyda
chymunedau lleol i hybu
cyflogaeth

Clickwch ar y logo i fynd i'r wefan

 Minesto



Cyllid Ewropeaidd (ERDF) yn cefnogi amgylchedd Cymru

Arweinir Deep Green Cam 2 (DGP2) gan Minesto UK LTD ac mae wedi'i ddylunio i ddangos a darparu cynnyrch technoleg ynni'r llanw hyfyw, masnachol ddeniadol, cystadleuol, graddadwy yn barod i'w allforio i'r Farchnad Ynni Adnewyddadwy. Manteisio i'r eithaf ar lwyddiant y prosiect Minesto DG500 drwy optimeiddio perfformiad y tyrbîn graddfa lawn cyntaf a osodwyd yn 2018, gan ddarparu 0.75MW o gapasiti trydan adnewyddadwy ychwanegol o ynni'r tonnau a'r llanw yng Ngogledd Cymru drwy ddatblygu Dyfais Deep Green (DGU) ail genhedlaeth ar raddfa cyfleustodau yn Nŵr Dwfn Caergybi. Bydd datblygiad technolegol yn cael ei ategu gan barhau a diogelu Pencadlys Minesto UK, a sefydlu cyfleuster cydosod ar gyfer Gweithrediadau Peiriannau Pŵer, Cynnal a Chadw a Gweithgynhyrchu yng Nghymru. Bydd yr orsaf pŵer y llanw gyntaf ar raddfa lawn yng Ngogledd Cymru yn cael ei dylunio, ei chynhyrchu, ei gosod, a'i pherfformiad yn cael ei phrofi a'i dilysu ffel un fasnachol hyfyw. Mae Ystâd y Goron, rheolwr gwely'r môr yn y DU, eisoes wedi dyfarnu les ar wely'r môr ar gyfer gwaith gosod cychwynnol Minesto (0.5MW) ar gyfer safle llanw penodol yng Ngogledd Cymru.

Mae Tîm Minesto yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu'n dda â rhanddeiliaid a chynnal canfyddiad cadarnhaol yn y gymuned o weithgarwch y prosiect. Ochr yn ochr â darparu gweithgarwch sy'n cefnogi'r agenda werdd yn uniongyrchol, mae'r prosiect hefyd yn meithrin sgiliau'r gweithlu, gan ddefnyddio'r ganolfan ymwelwyr lwyddiannus i gynnal digwyddiadau gwybodaeth a digwyddiadau cyhoeddus i hysbysu'r gymuned yn ogystal â rhoi hwb i weithgareddau STEM ymysg darparwyr addysg lleol ac annog pobl leol i gymryd rhan mewn prosiectau peirianneg, ynni adnewyddadwy ac ynni'r môr. Ei nod yw cynyddu cyfranogiad menywod yn ei weithgareddau ymchwil ac mae Bwrdd Minesto wedi gosod ymrwymiad i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau fel amcan clir.

Diogelu Seilwaith at y Dyfodol



Mae **Safle Strategol Tŷ Du** yn gydweithrediad ar y cyd rhwng Gwasanaeth Cynllunio ac Adfywio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Llywodraeth Cymru i gyflawni Cam Cyflogaeth cynllun datblygu defnydd cymysg mawr yn Nhŷ Du, Nelson.

Nod y prosiect yw adeiladu hyd at 20,000 troedfedd sgwâr o safleoedd cyflogaeth modern B1 o fewn “Ardal Fasnachol” ddynodedig llwyfandir datblygu Tŷ Du, rhan o’r cynllun adfywio yn Nhŷ Du, Nelson. (Mae safle Tŷ Du yn 47.44 hectar (19.2 erw), ac wedi’i greu fel datblygiad defnydd cymysg pwysig sy’n cynnwys galluogi seilwaith priffyrdd, draenio, tirlunio, hyd at 200 o gartrefi (gan gynnwys darparu tai fforddiadwy) gyda hyd at 3.8HA (6,300 m²) wedi’u dyrannu ar gyfer defnydd cyflogaeth B1).

Bydd y prosiect yn adeiladu 4 adeilad cyflogaeth o ansawdd uchel yng nghornel dde-orllewinol y llwyfandir datblygu, gyda chyfanswm arwynebedd llawr o 1300 metr sgwâr. Byddai’n bosibl rhannu pob adeilad yn 2-3 uned lai ac maent wedi cael eu dylunio gyda ffasâd allanol o safon uchel, gyda chynllun mewnol hyblyg sy’n addas ar gyfer amrywiaeth o ddibenion busnes.

Bydd yr adeilad busnes newydd hefyd yn cynnwys gofod gweithredol helaeth, lle parcio i geir a beiciau, seddi allanol ac ardaloedd grŵp mewn lleoliad wedi’i dirlunio’n ddeniadol, gan gynnwys coed a gwrychoedd newydd.

Future Proofing Infrastructure

Safle Strategol Tŷ Du, parhad...

Mae Tîm Rheoli Dylunio Caerffili wedi hyrwyddo'r gwaith o wreiddio gweithgaredd y Thema Drawsbynciol ym mhob cam o broses ddylunio'r prosiect. Mae'r datblygiad ar y trywydd iawn i gael sgôr BREEAM Rhagorol gan ymgorffori mesurau dylunio PassivHaus. Defnyddiwyd celloedd Solar Ffotofoltaidd i helpu gyda chydbwysedd ynni, mae mesurau effeithlonrwydd dŵr yn cynnwys system canfod gollyngiadau/ffitiadau glanweithiol isel eu defnydd, dyluniadau SUDS sy'n cydymffurfio â gofynion diweddaraf SAB ac yn cyd-fynd â'r strategaeth draenio ar draws y safle, mae cynlluniau draenio'n cynnwys palmentydd hydraid, mannau parcio ceir gydag ardaloedd storio cellog a ffosydd cerrig, a gosod mesuryddion dŵr wedi'u pylsio yn yr adeiladau.

Mae'r prosiect wedi ymrwymo bod o leiaf 95% o'r isgontractwyr a'r cyflenwyr y maent yn defnyddio yn rhai o Gymru, gan gynnwys contractwyr llai, lleol a busnesau bach a chanolig, a defnyddio Adnodd Gwastraff Net WRAP, sy'n caniatáu i'r contractwr gynhyrchu rhagolygon gwastraff a blaenoriaethu camau lleihau ac adfer gwastraff, lleihau gwastraff i safleoedd tirlenwi gan ganiatáu i dîm y prosiect fonitro cynnwys wedi'i ailgylchu.

I gefnogi bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd, mae cynllun tirlunio cynhwysfawr a Chynllun Rheoli Tirwedd 25 mlynedd ar waith. Mae'r cynllun yn cynnwys: Gwarchod gwrychoedd terfyn a choed gwrychoedd achlysurol rhannol aeddfed ar yr un pryd â phlannu coed newydd; lleiniau o laswellt wedi gwella eu hunain wrth ymyl gwrychoedd er mwyn cynnal amrywiaeth ecolegol; planhigion drwy gydol y flwyddyn er budd rhywogaethau o bryfed peillio; darparu SUDS a Phantiau a nodweddion pyllau fel rhan o seilwaith ehangach y safle.

Mae Cynllun Manteision Cymunedol cynhwysfawr ar waith fel rhan o'r tendr a bydd yn cynnwys (yn amodol ar ganllawiau lechyd a Diogelwch Covid 19) cyfleoedd newydd ar gyfer gwaith, prentisiaethau, profiad gwaith, ymweliadau myfyrwyr ar gyfer ysgolion/colegau/prifysgolion a recriwtio ar gyfer pobl ddi-waith hirdymor. Mae hyn yn cynnwys cymorth i'r 'Prosiect BOSS' sy'n cael ei redeg gan yr elusen The Wallich, sy'n helpu unigolion ag euogfarnau troseddol i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth ac mae Women Construct Wales, sy'n cael ei ariannu gan CITB, yn



Diogelu Seilwaith at y Dyfodol

Seilwaith Strategol Llangefni

Pecyn buddsoddi mewn seilwaith allweddol i hybu twf yr economi leol

Safleoedd ac unedau cwbl hygyrch sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau anabledd ac yn ymdrechu i ddilyn yr arferion gorau.

Adeiladau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon a thechnoleg ynni adnewyddadwy ar y ddau safle:

- Mannau gwefru cerbydau
- Bydd lle ar gael i gadw beiciau
- System draenio trefol gynaliadwy

Yn unol â pholisi Cyngor Ynys Môn ar y Gymraeg, caiff y cyfleoedd swyddi eu hysbysebu'n ddwyieithog a chynhelir y cyfweiliadau yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unol â dewis yr ymgeiswyr. Mae gwasanaeth gwybodaeth cwbl ddwyieithog ar gael.

Cefnogi amryw o gamau gweithredu amgylcheddol:

- Dyluniwyd gan ddefnyddio egwyddorion Rhagoriaeth BREEAM
- Yn defnyddio'r gadwyn gyflenwi leol
- Effeithlon o ran ynni, gydag inswleiddio ag aerglosrwydd da
- Technoleg ynni adnewyddadwy, gan gynnwys paneli ffotofoltäig ar bob uned
- Seilwaith gwyrdd sy'n hawdd ei gynnal a'i gadw, a phlannu er budd bioamrywiaeth



Cliciwch ar y logo isod i weld y wefan



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



Mae **Safle Cyflogaeth Strategol Llangefni** yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Ynys Môn. Mae'n cynnwys adeiladu unedau busnes modern ar hen safle Hyfforddiant Môn ym Mharc Busnes Bryn Cefni, ac yn rhan o fuddsoddiad ehangach mewn seilwaith ar safleoedd penodol, a nodwyd fel cyfleoedd twf allweddol. Dechreuodd y prosiect yn 2017 a chafodd ei gwblhau yn 2020, ac mae'r busnesau sy'n denantiaid eisoes wedi meddiannu'r pum uned ddiwydiannol newydd ar safle Bryn Cefni.

Cafodd yr unedau Busnes eu dylunio gan ddefnyddio egwyddorion BREEAM Rhagorol ac ar sail sgoriau cyfwerth BREEAM, cafodd yr adeilad ganlyniadau 'rhagorol'. Yn ystod y gwaith o adeiladu'r ffordd gyswllt gyfagos, ailgylchwyd agregau a chwblhawyd un adran gyda 100% o'r deunyddiau'n cael eu hailgylchu ar y safle. Mabwysiadwyd egwyddorion adeiladu effeithlon o ran ynni ym mhob rhan o'r gwaith ac ymgorfforwyd technoleg ynni adnewyddadwy, gan gynnwys paneli PV, ym mhob uned.

Roedd dros 25% o'r agregau a ddefnyddiwyd yn dod o ffynonellau eilaidd neu wedi eu hailgylchu a System Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDs) – gosodwyd tanciau gwanhau. Prynwyd llawer o'r deunydd adeiladu a ddefnyddiwyd ar gyfer y prosiect gan gyflenwr lleol yn Llangefni. Plannodd y contractwyr adeiladu 2,000 o fylbiau cennin pedr yn Llangefni ar gyfer y Gwasanaeth Maethu a chymerodd ran mewn nifer o gynlluniau gan gynnwys Ras Rafftau ar y Fenai i godi arian ar gyfer Tŷ Gobaith.



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru @wefocymru · 8 Feb 2017

3/3 CUBRIC wedi cael statws rhagoriaeth @BRE_BREEM ac wedi cynnwys toeon gwyrdd eco-gyfeillgar yn ei ddyluniad: bam.co.uk/how-we-do-it/c...



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru @wefocymru

Gyda £4.6m o gronfeydd yr UE @CUBRICcardiff cynaliadwydd a lleihau'r effaith amgylcheddol oedd y themâu allweddol #diwrnodamgylcheddydd



12:18 pm · 5 Jun 2017 · Hootsuite



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru @wefocymru

Mae fforwm busnes newydd wedi'i sefydlu yn Wrecsam i gefnogi'r gymuned Bwylaidd, gyda chymorth ariannol yr #UE drwy @busnescymru. Mae 12 o fusnesau wedi dechrau masnachu ers y gweithdy cyntaf facebook.com/SiemaBizForum/ #DiwrnodRhyngwladolMudwyr



118 · Hootsuite Inc.



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru @wefocymru

Mae @RICE_Cymru gyda nawdd yr UE a dan arweiniad Prifysgol Abertawe, yn datblygu technolegau i leihau allyriadau carbon yn niwydiannau ynni-ddwys Cymru, gan ysgogi economi wyrddach a chryfach: ow.ly/lfeZ50F2Rvh #diwrnodamgylcheddydd #CronfaUE



in 2021 · Hootsuite Inc.

1 Likes



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru @wefocymru

Mae @bancdaticymru sy'n cefnogi busnesau Cymru drwy Gronfa Busnes Cymru a ariennir gan yr UE, yn dathlu llwyddiannau merchd busnes yng Nghymru drwy fod y prif noddwr ar gyfer Gwobrau Merchd Cymru Mewn Busnes @LlaisCymruWales. Mwy yma: developmentbank.wales/cy/newyddion-d... #LlaisAwards2021



am · 1 Jul 2021 · Twitter Web App

tweets · 5 Likes



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru @wefocymru

#Bikeweek Beth am ymweld â llwybr beicio wedi'i ariannu gan yr UE? @DHSTINI0G #BlaenauFfestiniog @BikeParkWales #Merthyr Cwmcarn #Caerffili



1:05 pm · 12 Jun 2017 · Hootsuite

1 Retweet · 1 Like



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru @wefocymru

Mae @am_arbed a ariennir gan yr UE yn darparu buddiannau cymunedol ar gyfer prentisiaid, cymorth cyflogaeth a hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli lleol. Darllenwch fwy am y llwyddiannau ardderchog yma: ow.ly/Hv6d50FmMdQ #CronfaUE




C.



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru @wefocymru

Mae @awen_institute yn dod â phartneriaid ynghyd i greu cynnyrch, gwasanaethau ac amgylcheddau i'r boblogaeth hyn sy'n tyfu. Mae'r celfyddydau a manau synhwyraidd yn bwysig ar gyfer #Dementia, ewch i aweninstitute.com/?lang=cy #worldalzheimersmonth #CronfaUE



9:30 am · 21 Sep 2021 · Hootsuite Inc.

1 Retweet · 1 Like



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop European Regional Development Fund